Pam Fod Eira'n Wyn (Dafydd Iwan)

```
Rhagarweiniad G  D | e | C | G

   G             D    e                G     D    e
1. Pan fydd haul ar y mynydd, pan fydd gwynt ar y môr,
         G      D    e           C         G
pan fydd blodau yn y perthi, a'r goedwig yn gôr.
G                   Gmaj7     C           A
Pan fydd dagrau f'anwylyd fel gwlith ar y gwawn,
G                  C          G   D       G
rwy'n gwybod, bryd hynny, mai hyn sydd yn iawn.

Cytgan:   G            C              G                C
    Rwy'n gwybod beth yw rhyddid, rwy'n gwybod beth yw'r gwir,
      G              C          A           Amaj7
rwy'n gwybod beth yw cariad, at bobol ac at dir.
      G          D                e
Felly peidiwch a gofyn eich cwestiynnau dwl,
         G      D      e
peidiwch edrych arna'i mor syn
        G    D       e             C      G     D | C | G
Dim ond ffŵl sydd yn gofyn pam fod eira'n wyn   -   -   -

   G                D  e               G     D     e
2. Pan fydd geiriau fy nghyfeillion yn felys fel y gwin
    G       D    e          C             G
a'r seiniau mwyn cynefin yn dawnsio ar ei min.
G                  Gmaj7   C          A
Pan fydd nodau hen alaw yn lleddfu fy nghlyw
      G              C                 G      D       G
rwy'n gwybod beth yw perthyn, ac rwy'n gwybod beth yw byw!

   G         D        e          G          D      e
3. Pan welaf graith y glöwr, a'r gwaed ar y garreg las,
    G         D      e          C               G
pan welaf lle bu'r tyddynnwr yn cribo gwair i'w dâs
G                 Gmaj7       C              A
Pan gofiaf bren y gorthrwm am wddf y bachgen tlawd,
      G                  C      G      D       G
rwy'n gwybod bod rhaid i minnau sefyll dros fy mrawd
```